

Cledrau Croesi Caerdydd

Cam 1A

Ymrwymiad i Ymgynghoriad

2 Awst 2024

Cam 1 Cledrau Croesi Caerdydd
Cardiff Crossrail phase 1

Caerdydd Canolog i'r Bae
Cardiff Central to the Bay



Funded by
UK Government



Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU





Cynnwys

Cyflwyniad	3
Prosiect Cledrau Croesi Caerdydd	5
Ymgynghori ac Ymgysylltu	9
Dweud Eich Dweud	16
Atodiad	19



Cyflwyniad

Ymrwymiad i'r Ymgynghoriad

Ymrwymiad i Ymgynghoriad yw dogfen sy'n amlinellu i aelodau'r cyhoedd, cymunedau a rhanddeiliaid sut y bydd sefydliad yn ymgysylltu â nhw ar brosiect penodol. Mae'r ddogfen hefyd yn rhoi trosolwg o'r prosiect a gynhelir, pa ddeunydd fydd ar gael a sut y gall pobl sy'n rhan o'r prosiect ac sy'n cael eu heffeithio ganddo ddweud eu dweud ar y gwaith sy'n cael ei gynllunio.

Mae'r ymrwymiad hwn yn cyfeirio at brosiect Cledrau Croesi Caerdydd (yn benodol cam 1A: Caerdydd Canolog i'r Bae) a bydd yn nodi sut y bydd Trafnidiaeth Cymru (TrC) a Chyngor Caerdydd (CC) yn ymgysylltu â chymunedau yng nghanol y ddinas a'r cyffiniau fel rhan o Orchymyn a wneir o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd (TWOA), sy'n ofynnol i gyflawni'r gwaith a gynlluniwyd.

TWAO yw'r ffordd arferol y mae rheilffordd neu dramffordd newydd yn cael ei hawdurdodi yng Nghymru a Lloegr. Mae'r broses TWAO yn caniatáu i unrhyw berson sydd â diddordeb rannu ei farn ar y cynnig trwy broses ymgynghori a rhoi adborth ar elfennau penodol o'r prosiect sydd eto i'w gwneud yn derfynol.

Arweinir ymgynghoriad Cledrau Croesi Caerdydd gan TrC a Chyngor Caerdydd. Rydym yn awyddus i glywed barn ein cymunedau a bydd eu hadborth yn helpu i droi'r prosiect hwn yn gyswllt trafndiaeth gyhoeddus y bydd pobl yn falch ohono. Rydym yn gobeithio y bydd yr ymrwymiad hwn yn helpu pobl i ddeall sut y gallant ddweud eu dweud.

Ynglŷn â Thrafnidiaeth Cymru

Mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) yn gwmni nid-er-elw ac yn is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i Lywodraeth Cymru. Rydym yn gyfrifol am hyrwyddo opsiynau trafndiaeth gynaliadwy a darparu rhwydwaith rheilffyrdd cwbl integredig a hygyrch, sydd o fudd i gymunedau ledled Cymru.

Ei bwrpas yw darparu gwasanaethau trafndiaeth cynaliadwy sy'n cadw Cymru i symud. Rydym am i fwy o bobl ddewis trafndiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn hytrach na gyrru'r car. Cefnogir y newid mewn dull teithio hwn gan Strategaeth Trafnidiaeth Cymru 2021 – Llwybr Newydd sydd â chynaliadwyedd wrth ei wraidd ac sy'n hanfodol i ymateb i'r argyfwng hinsawdd.

Mae TrC wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda sefydliadau partner, rhanddeiliaid, cymunedau, cwsmeriaid ac aelodau o'r cyhoedd i sicrhau ein bod yn creu system drafndiaeth gyhoeddus sydd wedi'i siapio'n llwyr gan anghenion y bobl rydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn annog pawb sydd â diddordeb ym mhrosiect Cledrau Croesi Caerdydd i rannu eu hadborth gyda ni.

Gyda'n gilydd byddwn yn creu rhwydwaith trafndiaeth y mae pobl am ei ddefnyddio, yn gallu ei ddefnyddio ac sydd yn ei ddefnyddio – gan helpu i'w gwneud yn haws i bobl wneud dewisiadau trafndiaeth mwy cynaliadwy nawr ac yn y dyfodol.



Ynglŷn â Chyngor Caerdydd

Mae Cyngor Caerdydd (CC) yn un o'r 22 awdurdod lleol sy'n gweithredu ledled Cymru, gyda chylch gwaith i oruchwylio gwasanaethau fel addysg, tai, gofal cymdeithasol, rheoli gwastraff, iechyd yr amgylchedd a thrafnidiaeth (gan gynnwys priffyrdd) yn ardal Caerdydd.

Ar hyn o bryd, mae tair thema allweddol yn gyrru gweithrediadau'r Cyngor: Yn gryfach Yn decach Yn wyrddach, sydd wedi llywio ei waith a'i gyfeiriad dros y degawd diwethaf a bydd yn parhau i wneud hynny am y 5 mlynedd nesaf. Dyma'r themâu:

Dinas gryfach, gydag economi yn creu ac yn cynnal swyddi â chyflog da, gyda system addysg sy'n helpu ein pobl ifanc i gyrraedd eu potensial, gyda thai da, fforddiadwy mewn cymunedau diogel, hyderus a grymus, i gyd yn cael eu cefnogi gan wasanaethau cyhoeddus effeithlon ag adnoddau da.

Dinas decach, lle gall pawb fwynhau'r cyfleoedd i fyw yng Nghaerdydd, beth bynnag fo'u cefndir, lle mae'r rhai sy'n dioddef effeithiau tlodi yn cael eu diogelu a'u cefnogi, lle mae diwrnod teg o waith yn derbyn tâl teg, a lle mae pob dinesydd yn cael ei werthfawrogi.

Dinas wyrddach sydd, drwy raglen Caerdydd Un Blaned, yn arwain ar ymateb i'r argyfwng hinsawdd, sy'n dathlu ac yn meithrin bioamrywiaeth, gyda mannau agored o ansawdd uchel o fewn cyrraedd hawdd i orffwys a chwarae sydd wedi'u cysylltu gan opsiynau cludiant cyfleus, hygyrch a diogel cynaliadwy.



Prosiect Cledrau Croesi Caerdydd ac AEA

Cefndir y prosiect

Mae prosiect Cledrau Croesi Caerdydd yn fenter ar y cyd gan TrC a CC (y cyfeirir ati yn y ddogfen hon fel 'ni').

Bydd Cam 1A Cledrau Croesi Caerdydd yn cynnwys creu cyswllt trên tram newydd rhwng gorsaf reilffordd Caerdydd Canolog a Bae Caerdydd gan gysylltu'r ddau gyda thrên am y tro cyntaf erioed.

Mae'r prosiect yn rhan o weledigaeth ehangach Cledrau Croesi Caerdydd a gyflwynir gan CC yn eu Papur Gwyn Trafnidiaeth (2019) ac fe'i hariennir ar y cyd gan Lywodraethau'r DU a Chymru, trwy'r Gronfa Ffyniant Bro a chyllid cyfatebol Llywodraeth Cymru. Dyfarnwyd £50m i CC gan Lywodraeth y DU a £50m arall gan Lywodraeth Cymru i ddylunio, datblygu a darparu ateb a fydd yn arwain at well cysylltedd rhwng Canol Caerdydd a'r Bae.

Bydd TrC yn darparu elfennau trên-tram y prosiect ar ran CC.

Bydd cynllun Cledrau Croesi Caerdydd yn cyd-fynd yn llawn â dyheadau Metro De Cymru ac yn ffurfio rhan o drawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd.

Amlinellir cwmpas prosiect Cledrau Croesi Caerdydd yng nghais Cronfa Ffyniant Bro gwreiddiol fel a ganlyn:

- Ymestyn Llinell y Bae i Ganol Caerdydd trwy Sgwâr Callaghan gyda rampiau a thrac uwch i gysylltu â llinell gyfredol y Bae a thrac ar wahân i gysylltu trwy Sgwâr Callaghan i Gaerdydd Canolog.
- Gorsaf dau blatfform newydd yng ngorsaf reilffordd Caerdydd Canolog gyda chyfnwidfa yng ngorsaf Caerdydd Canolog.
- Platfform ychwanegol (trydydd) yng ngorsaf Bae Caerdydd.
- Mae gwella tiroedd cyhoeddus helaeth yn gweithio ar draws y llwybr i gysylltu cymunedau, lleoedd ac atyniadau cyfagos.
- Sicrhau y gellir ei ymestyn ymhellach os digwydd adfywio pellach.

Dyw Cam 1B, a allai arwain at well cyswllt trafndiaeth o Orsaf Bae Caerdydd i Stryd y Pierhead, sydd heb ei gynnwys yn yr ymgynghoriad hwn, gan fod angen cyllid ychwanegol ar y rhan arfaethedig hon o brosiect Cledrau Croesi Caerdydd.

Cam 1 - Cledrau Croesi Caerdydd: Caerdydd Canolog i'r Bae

Cam 1A

Caerdydd Canolog i Fae Caerdydd
Nodi £100 miliwn o gyllid cyfalaf yn
amodol ar gymeradwyaeth Achos
Busnes Llawn

WPA2

WPA4

WPA1

WPA3

Cam 1B

Caerdydd Canolog i'r Pierhead
I'w ddatblygu yn amodol ar gyllid
ychwanegol

WPA5

WPB3

WPB2

WPB1



Amserlen y prosiect



Ebrill 2024

Cyflwyno Achos Busnes Amlinellol i lywodraeth y DU.



Haf 2024

Ymgysylltu â rhanddeiliaid cyn cyhoeddi'r ymgynghoriad cyhoeddus a lansio'r Ymrwymiad i'r Ymgynghoriad (y ddogfen hon).



Hydref 2024

Lansio ymgynghoriad cyhoeddus .



Gaeaf 2024/25

Cyflwyno Achos Busnes Llawn i lywodraeth y DU.



Haf 2025

Penderfynu cyflwyno cais ar gyfer gwneud Gorchymyn o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd (TWAO).



Haf 2026

Cadarnhau gwneud Gorchymyn o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd (TWAO)



Yn hwyr yn 2028/ yn gynnar yn 2029

Dechrau gwasanaethu





Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol

Cynhyrchwyd Llythyr Sgrinio Asesiad Effeithiau Amgylcheddol (AEA) ar gyfer y prosiect oedd yn adolygu effeithiau posibl y prosiect i benderfynu a oes angen AEA.

Cynhelir Gwerthusiad Amgylcheddol i asesu effeithiau posibl. Byddai mesurau lliniaru cadarn yn cael eu rhoi ar waith a byddai arfer da yn cael ei ddilyn i gyfyngu ar effeithiau adeiladu a gweithredu ar yr amgylchedd. Yn ogystal, bydd y dyluniad yn cael ei arwain gan arbenigwyr amgylcheddol profiadol fel bod effeithiau posibl yn cael eu lliniaru i lefelau nad ydynt yn arwyddocaol.

Ar adeg ysgrifennu, mae arolygon ecolegol, acwstig a dirgryniad ac arolygon coedyddiaeth yn cael eu cynnal er mwyn ein hwyluso gyda'r dyluniad. Gyda'r mesurau a gynigir i osgoi neu atal effeithiau andwyol ar yr amgylchedd, nid oes angen AEA ar y prosiect arfaethedig.



Ymgynghori ac ymgysylltu

Pryd y byddwn yn ymgynghori?

Llinell amser ymgysylltu ar gyfer Cam 1A

- Cyhoeddi'r ymrwymiad hwn (2 Awst 2024)
- Cyfnod ymgynghori 1A (16 Medi 2024 nes 27 Hydref 2024)
- Casglu adborth a llunio adroddiad ymgynghori dilynol (28 Hydref 2024 – 8 Ionawr 2025)
- Cyhoeddi'r Adroddiad (tua 13 Ionawr 2025).

Bydd y cyfnod ymgynghori yn para 6 wythnos a bydd cyfle i randdeiliaid a chymunedau rannu eu barn a'u safbwyntiau ar y cynnig.

Unwaith y daw'r cyfnod ymgynghori i ben, bydd y canlyniadau'n cael eu hystyried yn ofalus gan CC a TrC. Bydd y trafodaethau hyn yn llywio'r penderfyniadau y bydd TrC a Chyngor Caerdydd yn eu gwneud ar gynigion i gyflwyno cais am Orchymyn o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith (TWAO) i adran Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) yng Ngwanwyn 2025 i awdurdodi adeiladu a chynnal Cam 1A o Brosiect Cledrau Croesi Caerdydd.

Bydd TWAO yn gofyn am ymgynghori cadarn a thrylwyr ar y cynnig a gyflwynir. O'r herwydd, rydym yn awyddus i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl, sy'n byw ac yn gweithio yng nghyffiniau'r prosiect, yn ogystal â'r rhai a allai ddefnyddio'r cyswllt trafnidiaeth newydd i deithio i'r gwaith, i hamddena neu ar gyfer addysg, yn cael cyfle i rannu eu barn ar y cynnig.

Ar beth y byddwn yn ymgynghori?

Bydd un opsiwn dylunio ar gael i'w ystyried ar gyfer y llwybr trên tram arfaethedig rhwng gorsaf Caerdydd Canolog a'r Bae. Fodd bynnag, mae sawl elfen y bydd TrC a CC angen mewnbwn a barn, yn eu cylch.

Rydym yn gwahodd pobl i rannu eu barn am yr elfennau canlynol, ond nid yn gyfyngedig iddynt:

- Adborth cyffredinol ar y cynllun Cledrau Croesi Caerdydd a brwdfrydedd y cyhoedd tuag ato
- Datblygiadau seilwaith (sut fydd hyn yn edrych a theimlo i ddefnyddwyr)
- Dyluniadau ar gyfer mynedfa arfaethedig yr orsaf
- Nodweddion dylunio (bydd hygyrchedd a sut y gallwn ddylunio a chyflwyno arfer da yn thema allweddol)
- Cyd-fynd a mentrau teithio llesol (a allai annog mwy o bobl i gerdded, olwynio a beicio yn y gymuned a thu hwnt)



- Cysylltiadau bysiau
- Y cynnig adeiladu ac unrhyw effeithiau adeiladu posibl
- Effeithiau cau ffyrdd a gwasanaethau trenau dros dro
- Yr angen i ddeall pryderon a gwrthwynebiadau yn ogystal â materion a allai effeithio ar y cynnig nad yw tîm y prosiect yn ymwybodol ohono eisoes.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, caiff rhanddeiliaid a chymunedau gyfle i ystyried deunydd sy'n ymwneud ag opsiynau a ystyriwyd yn flaenorol gan TrC a CC i wella cysylltedd rhwng Canolfan Caerdydd a Bae Caerdydd, yn ogystal â gwybodaeth am yr opsiwn a nodwyd gan TrC a CC i'w ystyried sy'n destun yr ymgynghoriad cyfredol.

Rydym yn awyddus i ddeall meddyliau a barn y gymuned, defnyddwyr gwasanaeth a darpar ddefnyddwyr gwasanaeth, ein cwsmeriaid a rhanddeiliaid allweddol ar yr elfennau hyn.

Bydd yr ymgynghoriad hefyd yn ein galluogi i ddeall effaith hyn a datblygiadau posibl yn yr ardal yn y dyfodol ar fywydau pobl yn y cymunedau a'r busnesau lleol. Gellir hyrwyddo mewnwelediadau cadarnhaol, a lleddfu pryderon.

Bydd yr ymgynghoriad a'r adroddiad sy'n deillio ohono hefyd yn ein helpu i ddatblygu cais TWAO cyn ei gyflwyno i sicrhau cynnig sydd wedi'i fireinio gan fewnbwn a barn rhanddeiliaid a phobl yn y gymuned cymaint ag sy'n ymarferol bosibl. Bwriedir cyhoeddi'r adroddiad ymgynghori ym mis Ionawr 2025 ac, os penderfynir bwrw 'mlaen a chyflwyno cais am TWAO, bydd yr adroddiad ymgynghori yn ffurfio rhan o'r ddogfen hon.

Gyda phwy fyddwn ni'n ymgynghori?

Mae'r ymgynghoriad yn agored i unrhyw un sydd â diddordeb yn y prosiect Cledrau Croesi Caerdydd. Mae TrC a Chyngor Caerdydd yn awyddus i glywed amrywiaeth eang o safbwyntiau ar y prosiect, a fydd yn helpu i ddatblygu adroddiad cadarn a thrylwyr cyn ymgeisio.

Fel rhan o'r broses hon, byddwn ni yn ymgynghori ag ystod eang iawn o randdeiliaid. Ymgynghorir â llawer yn unol â gofynion penodol a nodir yn y rheolau sy'n llywodraethu hyrwyddo TWAO. Fodd bynnag, ymgynghorir â llawer o bobl eraill am y cynllun gan fod TrC a Chyngor Caerdydd wedi ymrwymo i gasglu mewnwelediadau o'r ystod ehangaf bosibl o ddiddordebau o fewn y gymuned leol, i helpu i lunio'r cynllun.

Fel rhan o'r ymgysylltiad cymunedol hwnnw, mae ardal o ddiddordeb yn y prosiect, sy'n effeithio ar drigolion lleol a busnesau sy'n ymestyn 500m bob ochr i goridor y prosiect wedi'i nodi ar gyfer ymgynghoriad wedi'i dargedu.



Yn fwy cyffredinol, ymgynghorir â'r cyrff/grwpiau canlynol, fel rhan o'r broses ymgynghori:

- Cyllidwyr Prosiect, Partneriaid a Llywodraethu
- Partneriaethau, Paneli a Fforymau Trafnidiaeth Cymru
- Rhanddeiliaid rheilffyrdd a thrafnidiaeth
- Cwmnïau Gweithredu Trenau Eraill (TOC)
- San Steffan a Llywodraeth y DU (gyda diddordeb yn Awdurdod Lleol Caerdydd)
- Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru (gyda diddordeb yn Awdurdod Lleol Caerdydd)
- Cabinet Cyngor Caerdydd a Chynghorwyr Wardiau Lleol.
- Awdurdodau Lleol Cyfagos a'r rheini ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
- Cymuned leol a busnesau: Anfon llythyr i bawb o fewn 100m o radiws ffin y prosiect (fel y nodir o dan y Ddeddf Priffyrdd)
- Amgylcheddol
- Lleoliadau hamdden a thwristiaeth ac adeiladau rhestredig perthnasol
- Grwpiau diddordeb lleol; cymdeithasau preswylwyr, grwpiau amgylcheddol a gweithredwyr
- Y cyhoedd ehangach, teithwyr a theithwyr posibl
- Arbenigwyr; datblygwyr, perchnogion seilwaith, cyfleustodau
- Grwpiau nodwedd gwarchoddedig
- Ymgwymerwyr Statudol a Chyrff Cyhoeddus eraill
- Perchnogion tir
- Gwasanaethau Brys
- Gweithredwyr Bysiau.

Deunyddiau

Cynhyrchir amrywiaeth o ddeunyddiau i ddangos cynigion y prosiect, hyrwyddo'r ymgynghoriad a rhoi trosolwg cadarn i aelodau'r cyhoedd o'r elfennau yr eir ati i ymgynghori yn eu cylch. Mae'r rhain yn cynnwys ond nid ydynt yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Mapiau o'r ardaloedd datblygu
- Animeiddiadau 'hedfan drwodd' a CGI o'r cynlluniau
- Pecynnau gwybodaeth
- Cyfryngau Cymdeithasol a Blog Cyfryngau Cymdeithasol
- Tudalen/tudalennau gwe pwrpasol



- Llythyrau i gymdogion a busnesau
- Cynnwys yn rhoi trosolwg o'r prosiect (gan gynnwys fersiynau hawdd eu darllen, amlieithog a hygyrch)
- Cwestiynau Cyffredin
- Lluniau sy'n dangos amserlen y prosiect
- Dogfennau technegol gan gynnwys: Cynllun Rheoli Amgylcheddol, Cynllun Datblygu Cynaliadwy (pan fydd ar gael), Barn sgrinio am yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a Lluniadau Opsiynau Dewisol.
- Arolwg ymgynghori ar-lein ac all-lein

Arolwg Ymgynghori

Anogir pobl i gymryd rhan yn yr arolwg ymgynghori. Bydd yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau agored a chaeedig, i sicrhau bod cyfle i roi adborth diderfyn, yn ogystal ag adborth uniongyrchol ac ystyriol am yr elfennau allweddol a nodir yn adran 'Gyda phwy fyddwn ni'n ymgynghori?'

Bydd yr arolwg ymgynghori hefyd yn casglu data demograffig sy'n ymwneud â'r cyfranogwyr.

Hyrwyddo a chymryd rhan

Rydym am sicrhau bod yr ymgynghoriad yn cyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl, fel y gall unrhyw un sydd â diddordeb gael y cyfle i ddweud ei ddweud ar y cynlluniau. Byddwn yn defnyddio'r dulliau a'r adnoddau canlynol i wneud hyn:

- Platform ymgynghori ar-lein / rhithwir – sy'n hygyrch i bawb – a gynhelir ar wefan 'Dweud eich dweud' TrC ac sy'n cynnwys yr holl ddeunyddiau a restrir uchod
- Sesiynau galw heibio cymunedo yn arddangos yr holl ddeunydd a restrir uchod.
- Fersiynau o'r arolwg ymgynghori ar gael ar-lein ac all-lein
- Cardiau busnes gyda chod QR gyda dolenni i blatfform ar-lein yr ymgynghoriad
- Ymweliad â safleoedd rhanddeiliaid, fforymau a grwpiau ffocws i drafod y cynllun ac annog mwy o bobl i'w hyrwyddo ac i gyfrannu ato ymhellach
- Cyfryngau Cymdeithasol taladwy ac organig fel Facebook, Instagram, Twitter/X, LinkedIn)
- Defnyddio platfformau ymgysylltu â'r cyhoedd (h.y. YouGov ac ati)
- E-fwletinau i randdeiliaid
- Presenoldeb mewn digwyddiadau cymunedol lleol (digwyddiadau trydydd parti h.y. carnifalau, gwyliau, diwrnodau gwybodaeth gymunedol, digwyddiadau i sefydliadau partner ac ati)
- Hysbyseb cyfryngau prif ffrwd (gan gynnwys cod QR i gysylltu â'r platfform ymgynghori ar-lein)–



papurau newydd (Western Mail, South Wales Echo, Metro - rhifyn Caerdydd, Wales Online a Nation Cymru), cylchgronau cymunedol, radio a teledu..

- Adnoddau sefydliadau partner – Awdurdod Lleol/Llywodraeth Cymru, AGB Caerdydd, cylchlythyrau Cynghorau Cymuned, gwefan, blogiau, platfformau cyfryngau cymdeithasol a rhwydweithiau aelodau etholedig.
- Datganiad/au i'r wasg gan TrC a CC
- Cysylltu'n uniongyrchol drwy lythyr â'r holl gymdogion a busnesau/eiddo ar ochr y lein
- Fforymau a gweithdai rhanddeiliaid.

Bydd cyfran fawr o'r ymgysylltiad yn cynnwys cwrdd ag aelodau'r cyhoedd mewn cyfarfodydd cymunedol wyneb yn wyneb. Bydd y rhain yn cynnig cyfle i'r rhai sydd â diddordeb ofyn cwestiynau am y prosiect a chael gwell dealltwriaeth o'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni. Bydd y cyfarfodydd hyn ar ffurf sesiynau 'galw heibio' cymunedol a byddant yn cael eu hysbysebu'n eang gan ddefnyddio opsiynau prif ffrwd a chyfryngau cymdeithasol. Byddan nhw'n cael eu harddangos ar wefan bwrpasol y prosiect a'r dudalen 'dweud eich dweud'. Gall mynychwyr ddisgwyl dod o hyd i daflenni gyda chodau QR fydd yn hebrwng i'r platfform a'r arolwg ymgynghori ar-lein, copiâu printiedig o'r arolwg, mapiau ardal wedi'i hargraffu, llwybrau hedfan CGI a chwestiynau cyffredin printiedig yn y digwyddiadau hyn ynghyd ag aelodau o dîm y prosiect ac arbenigwyr technegol/pwnc i ateb unrhyw gwestiynau.

Gellir dod o hyd i restr o'r digwyddiadau galw heibio cymunedol arfaethedig [yma](#).

Yn ogystal â'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb, bydd platfformau cyfryngau cymdeithasol/ymgysylltu ar-lein taladwy ac organig yn cael eu defnyddio i annog pobl i ymweld â phlatfform ar-lein yr ymgynghoriad. Bydd y rhain yn manteisio ar y platfformau cyfryngau cymdeithasol mwyaf poblogaidd i sicrhau bod ystod amrywiol o farnau'n cael eu casglu gan aelodau'r cyhoedd. Bydd yr ymgysylltiad hwn yn cynnwys defnyddio graffeg a negeseuon cyfryngau cymdeithasol pwrpasol gyda'r ddolen arolwg wedi'i hymgorffori. Gellir defnyddio platfformau fel Instagram hefyd i ddarparu animeiddiadau hedfan trwy CGI a chynnwys arddull cyfweiliad i ymgysylltu â defnyddwyr. Mae'r platfformau hyn hefyd yn caniatáu ar gyfer ymgorffori dolen yr arolwg ym mhob neges.

Byddwn hefyd yn ceisio gweithio gyda chyfryngau prif ffrwd megis papurau newydd - print ac ar-lein (a grybwyllir uchod) i sicrhau bod y rhai nad ydynt yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol hefyd yn cael gwybod am y prosiect. Gall hyn fod ar ffurf datganiadau i'r wasg a hysbysebion taledig. Gall hysbysebion hefyd ymgorffori cod QR i gyfeirio pobl at dudalen yr arolwg ar-lein. Gall erthyglau ar-lein gynnwys hyperddolen i'r arolwg.

Fel rhan o'r ymgysylltiad parhaus a gaiff ei gynna trwy gydol y cyfnod ymgynghori, byddwn yn ceisio cynnal pedwar gweithdy a chyfarfodydd ar gyfer rhanddeiliaid - dau ar-lein a chymaint ag sydd eu hangen wyneb yn wyneb.

Bydd y gweithdai hyn yn ein galluogi i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid i gasglu eu safbwyntiau



am y prosiect a'r broses ymgynghori, gan gynnwys yr ymrwymiad hwn a'r dewis o ddeunyddiau/ adnoddau a ddefnyddir i gasglu barn pawb sydd â diddordeb yn y gwaith sy'n cael ei wneud.

Bydd y gweithdai hefyd yn gyfle i ni annog ein partneriaid rhanddeiliaid i gefnogi'r broses ymgynghori trwy annog pobl i gymryd rhan trwy eu rhwydweithiau.

Byddwn yn cysylltu â rhanddeiliaid ynghylch manylion a gweithdai/cyfarfodydd arfaethedig hyn ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae 9 nodwedd warchoddedig fel yr amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Ddeddf yn grymuso ac yn diogelu'r rhai sy'n nodi bod ganddynt un neu fwy o nodweddion gwarchoddedig, gan sicrhau nad ydynt yn wynebu gwahaniaethu oherwydd bod ganddynt y nodwedd hon.

Mae gan TrC a CC Baneli Hygyrchedd a Chynhwysiant pwrpasol sy'n cynnwys cynrychiolwyr gwirfoddol o bob rhan o'r 9 ardal nodwedd warchoddedig, a fydd yn ymgysylltu â nhw'n rheolaidd fel rhan o Cledrau Croesi Caerdydd. Fodd bynnag, rydym hefyd am sicrhau bod ein deunyddiau ymgysylltu a'n gweithgareddau mor gynhwysol â phosibl i aelodau ehangach o'r cyhoedd. Yn hyn o beth, byddwn yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid cymunedol i sicrhau y bydd cyfleoedd i bawb gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys lleisiau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml.

Cysylltu â ni

Isod mae manylion cyswllt ar gyfer y tîm prosiect penodedig:

ymgysylltu@trc.cymru

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, bydd tîm y prosiect yn ceisio ateb unrhyw gwestiynau yn gyflym. Dylid nodi y bydd angen mewnbwn technegol ar rai atebion ac felly gall gymryd mwy o amser nag eraill ond ein nod yw darparu ateb mor llawn â phosibl, cyn gynted â phosibl, er mwyn galluogi ymgynghoreion a chyfranogwyr yr arolwg i ddarparu ymatebion llawn a gwybodus yn ystod y cyfnod ymgynghori.



Dweud eich dweud

Ffyrdd o ymateb i'r ymgynghoriad

During the consultation period, feedback can be submitted in the following ways:

- Platfform yr ymgynghoriad - arolwg ar-lein: <https://dweudeichdweud.trc.cymru/>
- Copïau papur o'r arolwg drwy e-bost: ymgysylltu@trc.cymru
- Copïau papur o'r arolwg yn y post - Rhadbost/Freeport: Trafnidiaeth Cymru/Transport for Wales, 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, CF37 4TH

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion un ai yn y post (Rhadbost/Freeport), drwy e-bost neu ar ein platfform ymgynghori fydd 27 Hydref 2024. Ni fydd unrhyw ymatebion a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried fel rhan o'r ymgynghoriad.

O ran ymatebion a ddaw a wneir ar y cyfryngau cymdeithasol neu ar ffurf ffurflen Gyswllt TrC, ni fyddant yn cael eu cofnodi fel ymateb swyddogol i'r ymgynghoriad.

Ynglŷn â 'dweud eich dweud'

Lansiwyd gwefan ymgynghori <https://dweudeichdweud.trc.cymru/> ym mis Tachwedd 2022.

Mae'r platfform ymgysylltu hwn yn caniatáu i TrC ymgysylltu ac ymgynghori ag ystod eang o gynulleidfaedd ond mae hefyd yn sicrhau bod fformatau ychwanegol ar gael a bod y wefan yn hygyrch i bob defnyddiwr. Roedd hyn yn dilyn adborth gan ymgynghoriadau blaenorol a gynhaliwyd ar blatfformau llai hygyrch eraill.

Bydd y dudalen ymgynghori yn cynnwys gwybodaeth gefndirol gryno, hawdd ei deall, am y prosiect ynghyd â'r holl ddeunydd a restrir yn adran '[Deunyddiau](#)' yn ogystal â manylion yr holl ddogwyddiadau galw heibio cyhoeddus a drefnwyd. Darperir gwybodaeth yn Gymraeg a Saesneg.

Dyma fydd ar y dudalen hafan:

- Cefndir y prosiect – amlinelliad clir a chryno o'r prosiect;
- Cylch bywyd y prosiect; manylion sefyllfa bresennol y prosiect
- [Cwestiynau cyffredin a dogfennau gwybodaeth ategol](#)
- Manylion yr holl ddogwyddiadau wyneb yn wyneb a gynhelir
- Cyfeiriad e-bost cyswllt
- Cwestiynau am yr arolwg (fersiwn y gellir ei hargraffu ar gael hefyd).

Er y byddwn yn cofnodi cyswllt a gohebiaeth â rhanddeiliaid a restrir yn y ddogfen hon at



ddibenion cofnodi, byddwn yn annog rhanddeiliaid i gyfrannu'n swyddogol drwy'r arolwg neu'n ysgrifenedig atom drwy'r sianeli a grybwyllir uchod.

Bydd yr arolwg ar agor tan 27 Hydref, ac unwaith y daw i ben, byddwn yn lawrlwytho'r data crai ac yn dechrau dadansoddi.

Byddwn hefyd yn defnyddio'r offeryn AI 'Wordnerds' i ddadansoddi a chynhyrchu themâu a safbwyntiau'n seiliedig ar y data a gasglwyd.

Caiff yr holl ymatebion eu trin yn unol â'r holl ddeddfau perthnasol sy'n ymwneud â diogelu data personol, gan gynnwys Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR). Mae rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae TrC a CC yn casglu data ar ein gwefannau:

[TrC: Datganiad Preifatrwydd](#)

[Cyngor Caerdydd: Hysbysiad Preifatrwydd](#)

Cyflwyno'r canlyniadau

Pan ddaw'r ymgynghoriad i ben, caiff y canlyniadau eu dadansoddi a'u paratoi fel adroddiad. Cyhoeddir yr adroddiad a bydd ar gael ar dudalen gwefan benodol y prosiect.

Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno cofnod o ymgysylltiad y cyhoedd a rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad. Mae hyn yn cynnwys y rhesymau dros ymgysylltu, y dulliau a ddewiswyd ac allbynnau'r ymgysylltiad; h.y. canfyddiadau allweddol yr ymgynghoriad a manylion unrhyw newidiadau y bwriedir eu gwneud i'r cynllun a chais TWAO o ganlyniad. Rhennir gwybodaeth am ddiwygiadau ac addasiadau i gais TWAO cyn ei gyflwyno yn cael ei chyflwyno, gan ddangos newidiadau a mireinio sy'n deillio o fewnbwn rhanddeiliaid ac aelodau cymunedau.

Prosiectau rhyngwynebu

Ynghyd â phrosiect Cledrau Croesi Caerdydd, mae nifer o brosiectau eraill yn digwydd ar yr un pryd yn yr un ardal. Dyma'r manylion:

- [Cyfnewidfa Fws Caerdydd](#)
- Adfywio Economaidd Northside
- Hwb Trafnidiaeth Aml-Ddull
- Mannau gollwng / codi tacsis
- Cynllun datblygu economaidd
- [Datblygu Cei Canolog Rightacres](#)



- [Rhaglen Welliannau Caerdydd Canolog](#)
- [Trawsnewid Lein y Bae \(Metro De Cymru\)](#)

Dylid rhannu unrhyw adborth ar gyfer y prosiectau uchod gyda'r tîm prosiect/trefnydd perthnasol yn uniongyrchol ac nid fel rhan o'r ymgynghoriad hwn. Byddwn yn ymgeisio rhannu unrhyw ymatebion a dderbynnir fel rhan o'n hymgyngoriad sy'n ymwneud â'r prosiectau hyn, gyda'r sefydliad perthnasol er gwybodaeth. Fodd bynnag, ni ellir gwarantu hynny.



Atodiad

Tabl 1: Dyddiadau, Amseroedd a Lleoliadau ar gyfer Ymgysylltu

Lleoliad	Dyddiad	Amseroedd
Canolfan Gymunedol Butetown	Dydd Llun 16 Medi	1200 - 1700
Cyfnewidfa Fysiau Caerdydd	Dydd Mercher 18 Medi	1600 - 1800
Gorsaf Caerdydd Heol y Frenhines	Dydd Mawrth 24 Medi	0800 - 1000
Gorsaf Bae Caerdydd	Dydd Mawrth 24 Medi	1500 - 1700
Urdd Gwneuthurwyr	Dydd Mercher 25 Medi	1000 - 1530
Gorsaf Bae Caerdydd	Dydd Gwener 27 Medi	0800 - 1000
Gorsaf Caerdydd Canolog	Dydd Mawrth 1 Hydref	I'w gadarnhau
Future Inn Bae Caerdydd	Dydd Mercher 2 Hydref	1500 - 2000
South Wales Islamic Centre	Dydd Gwener 4 Hydref	1200 - 1600
Eglwys Santes Fair	Dydd Mercher 9 Hydref	1300 - 1800
Gorsaf Caerdydd Heol y Frenhines	Dydd Iau 10 Hydref	1600 - 1830
Future Inn Bae Caerdydd	Dydd Llun 14 Hydref	1500 - 2000
South Wales Islamic Centre	Dydd Gwener 18 Hydref	1200 - 1600
Gorsaf Caerdydd Canolog	Dydd Llun 21 Hydref	I'w gadarnhau
Canolfan Gymunedol Butetown	Dydd Llun 21 Hydref	1200 - 1700
Cyfnewidfa Fysiau Caerdydd	Dydd Iau 24 Hydref	0800 - 1200
Gorsaf Caerdydd Canolog	Dydd Iau 24 Hydref	I'w gadarnhau

Noder y gall yr wybodaeth uchod newid. Caiff yr holl ddyddiadau, amserau a lleoliadau (cyfeiriadau llawn) eu cyhoeddi yn hysbyseb yr ymgynghoriad, yn agosach at ddyddiad dechrau'r ymgynghoriad.

**Tabl 2: Deunydd Craidd yr Ymgynghoriad**

Deunydd	Defnydd	Cynhyrchwyd Gan
Ymrwymiad i'r Ymgynghoriad	Arddangos i randdeiliaid ac aelodau'r cyhoedd sut yr eir ati i ymgysylltu â'r prosiect.	TrC/CC
Argraffiadau Artistiaid	Caniatáu delweddu o'r canlyniad terfynol posibl. Annog cefnogaeth y cyhoedd i'r prosiect a darparu adborth drwy ymgynghori.	TrC/CC/Motts
Mapiau Ardal	Caniatáu delweddu o'r ardal y mae'r prosiect yn effeithio arni.	TrC/Motts
Graffeg Llinell Amser y Prosiect	Caniatáu delweddu o gamau'r prosiect. Gellir ei gysylltu â mapiau i gydberthyn â'r amserlen a'r ardal y mae'r gwaith yn digwydd.	TrC/CC
Fideo hedfan drwodd/Animeiddio	Caniatáu trosolwg o brosiectau/camau cynhyrchu gorffenedig. Bydd yr offeryn hwn yn rhoi ymdeimlad dwfn o sut bydd y prosiect yn ymddangos trwy bob un o'r cyfnodau adeiladu a'r cynnyrch terfynol.	TrC/Motts



Cylchlythyr:	Darparu diweddariadau amserol ar ddatblygiad y prosiect. Mae hefyd yn atgyfnerthu'r angen am adborth - mae nodiadau atgoffa'r arolwg wedi'u cynnwys.	TrC/CC
Hysbyseb Cyfryngau Prif Ffrwd	Sicrhau bod yr angen am ymatebion i'r arolwg/adborth yn cael ei atgyfnerthu. Yn cyfateb i bob cam adeiladu i ddarparu diweddariadau lefel uchel.	TrC/CC/Motts
Llythyrau i Gyndogion/Busnesau sydd wedi'i lleoli gerllaw'r prosiect	Rhoi gwybod i bobl/ busnesau yr effeithir arnynt am ddiweddariadau i'r prosiect - cynnydd/oedi ac ati. Atgyfnerthu'r angen am adborth prosiect.	TrC/CC
Cynnwys Cyfryngau Cymdeithasol	Yn caniatáu delweddu dilyniant prosiect (fideos, ffilmiau ac ati). Hyrwyddo ymgysylltiad meddal ar y prosiect. Yn atgyfnerthu'r angen am adborth/ymatebion ymgynghori.	TrC/CC/Motts
Arolwg yr Ymgynghoriad	Bydd yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau agored a chaeedig, i sicrhau bod cyfle i roi adborth diderfyn, yn ogystal ag adborth uniongyrchol ac ystyriol ar yr elfennau allweddol a nodir yn ' <u>Gyda phwy fyddwn i'n ymgynghori?</u> '	TrC/CC

**Tabl 3: Paneli o Rhanddeiliaid a Fforymau Ymgysylltu**


Panel/Fforwm Rhanddeiliaid	Ymgysylltu	Dyddiad
Fforwm Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru	<ul style="list-style-type: none">• Trosolwg o'r Prosiect• Cyflwyno'r Ymrwymiad i'r Ymgynghoriad• Adborth Rhanddeiliaid ar ddulliau ymgysylltu	Fforwm mis Hydref
Panel Hygyrchedd a Chynhwysiant	<ul style="list-style-type: none">• Trosolwg o'r Prosiect• Hygyrchedd deunyddiau ymgysylltu	Medi



Map

Ardal y Prif Gategori

Radiws 500m, Preswyl a Busnes





Cam 1 Cledrau Croesi Caerdydd Cardiff Crossrail phase 1

Caerdydd Canolog i'r Bae
Cardiff Central to the Bay



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Funded by
UK Government



Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU



TRAFNIDIAETH
CYMRU
TRANSPORT
FOR WALES